

Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:	Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth — Rheoliadau
Swyddog/swyddogion sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw/enwau ac enw'r tîm):	Suzanne Whiting Deddfwriaeth a Pholisi
Adran:	Cadw
Pennaeth yr Is-adran/SRO (enw):	Gwilym Hughes
Y Gweinidog / Dirprwy Weinidog cyfrifol:	Dafydd Elis-Thomas, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Dyddiad Cychwyn:	Rhagfyr 2019

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?	6
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r iaith Gymraeg?	8
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?	9
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?	10
Adran 6. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn Gofynnol	13
Adran 7. Casgliad	14
Adran 8. Datganiad	16
Asesiadau Effaith Llawn	17
A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	17
B. Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd	24
C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	29
D. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	30

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r amgylchedd hanesyddol wedi llunio cymeriad a diwylliant Cymru ac mae'n gwneud cyfraniad pwysig at nodweddion unigryw lleol. Mae'n sbardun pwysig ar gyfer adfywio cymunedol ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant ein cenedl.

Mae'r fframwaith statudol sylfaenol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn seiliedig ar ddau ddarn o ddeddfwriaeth: Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (Deddf 1979) a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Deddf 1990). O dan y cyfundrefnau rheoli arferol a gyflwynwyd ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig gan Ddeddfau 1979 a 1990 yn y drefn honno, mae angen cais am ganiatâd bob tro y mae perchennog yn bwriadu gwneud gwaith penodol a fyddai'n effeithio ar ased hanesyddol.

Mae trefniant o'r fath yn gweithio'n dda i'r rhan fwyaf o berchnogion sydd ond yn gwneud gwaith o'r fath yn achlysurol iawn, os o gwbl. Fodd bynnag, i berchnogion safleoedd hanesyddol cymhleth neu grwpiau o asedau hanesyddol tebyg, megis camlesi neu bontydd, mae'r angen i gyflwyno ceisiadau niferus, ac ailadroddus yn aml, yn gallu bod yn feichus a chymryd llawer o amser.

Er enghraifft, mae gan Glandŵr Cymru (Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru) 222 o adeiladau rhestredig, pum heneb gofrestredig, saith ardal gadwraeth, wyth parc a gardd hanesyddol, a rhannau o ddau Safle Treftadaeth y Byd o dan ei pherchnogaeth yng Nghymru. Yn ystod 2012/2013, cafodd Glandŵr Cymru un caniatâd adeilad rhestredig/heneb gofrestredig llawn a 29 cliriad (lle'r oedd wedi paratoi dogfennau manwl ar gyfer awdurdod sy'n rhoi caniatâd er mwyn canfod a oedd angen caniatâd adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig).

Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol Cymru yn gyfrifol am tua 960 o bontydd rhestredig, ac mae 60 arall wedi'u cofrestru fel henebion. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar bob un ohonynt, sy'n cynnwys cyflwyno nifer o geisiadau pan fydd pontydd yn cael eu taro a bod angen eu hatgyweirio.

Oherwydd y materion hyn a materion eraill, roedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Deddf 2016) wedi diwygio Deddfau 1979 a 1990 er mwyn cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol rhwng perchennog ac awdurdod sy'n gallu rhoi caniatâd ar gyfer heneb gofrestredig a/neu adeilad rhestredig ar gyfer gwaith penodedig yn ystod oes y cytundeb. Bydd yn darparu sylfaen hirdymor ar gyfer rheoli newid i asedau dynodedig mewn ffordd gynhwysfawr a chyson.

Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth

- yn gweithredu fel ffocws i berchnogion, awdurdodau sy'n rhoi caniatâd a phartïon eraill ddatblygu dull partneriaeth o reoli a chynnal a chadw asedau hanesyddol yn y tymor canolig a'r hirdymor,

- cynyddu sicrwydd ynglŷn â dyheadau a gofynion pob parti, ac
- arbed amser ac adnoddau i bartneriaid drwy leihau nifer yr achlysuron pan fydd angen caniatâd ar gyfer gwaith.

I berchnogion fel Glandŵr Cymru, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn darparu caniatâd ar gyfer gwaith y cytunwyd arno a chynlluniau rheoli clir sy'n nodi gwaith arall sy'n gallu mynd rhagddo heb ganiatâd.

Roedd prosiect peilot gan English Heritage yn ymwneud â phontydd yng Nghernyw wedi ystyried manteision cytundeb partneriaeth dreftadaeth mewn sefyllfaoedd tebyg iawn i'r rhai a wynebir gan awdurdodau lleol Cymru:

- asedau gwasgaredig tebyg mewn perchnogaeth ar y cyd,
- roedd angen gwaith atgyweirio rheolaidd oherwydd difrod gan gerbydau, ac
- roedd modd cytuno ar fanyleb gyffredin ar gyfer gwaith atgyweirio ymlaen llaw.

Daeth i'r casgliad canlynol: *'The main benefits are better results, time saved and red tape cut, but principally better working relationships.'*

Cyn y gellir dod â chytundebau partneriaeth dreftadaeth i rym, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ategol, a bennir gan Ddeddfau 1979 a 1990.

Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn gymharol gyfyngedig ac yn caniatáu ar gyfer y canlynol yn unig:

- ymgynghori
- cyhoeddusrwydd
- cyfnodau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth; a
- therfynu cytundeb partneriaeth dreftadaeth, neu unrhyw ddarpariaeth berthnasol, drwy orchymyn Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio lleol.

Hefyd, gall y rheoliadau ddatgymhwyso, cymhwyso neu atgynhyrchu darpariaethau Deddfau 1979 a 1990 at ddibenion cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ers 2014 rhwng Cadw, rhai awdurdodau cynllunio lleol a Glandŵr Cymru i ddatblygu'r cynigion manwl sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau drafft. Hefyd, mae Cadw wedi cyfarfod â Historic England i drafod profiad y sefydliad o weithredu cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig yn Lloegr.

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol, a oedd yn gwerthuso costau ac effeithiau cytundebau partneriaeth dreftadaeth, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Deddf 2016. Mae costau ychwanegol sy'n deillio o'r rheoliadau wedi'u dadansoddi ymhellach mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.

Drwy wella'r gwaith o ddiogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru, bydd Deddf 2016 a'i mesurau cysylltiedig, gan gynnwys cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth, yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a 'Cymru o gymunedau cydlynus'.

Bydd y broses o gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth a chanllawiau cysylltiedig yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwerthfawrogiad, diogelwch, gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Yn fwy penodol, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y dangosydd cenedlaethol — 'Y ganran o asedau'r amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well' — a gyflwynwyd i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gweithwyr adeiladu yng Nghymru yn treulio dros 40 y cant o'u hamser yn gwarchod, yn atgyweirio ac yn cynnal a chadw asedau hanesyddol. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu i ddarparu mwy o sicrwydd a chysondeb yn ymwneud â rhaglenni gwaith arfaethedig.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Yn ôl gwaith ymchwil a gwblhawyd gan Heritage Counts 2014, roedd 90 y cant o ymatebwyr¹ yr arolwg yn cytuno bod buddsoddi yn eu hamgylchedd hanesyddol lleol wedi gwella'r ardal, ac roedd 92 y cant yn credu bod prosiectau adfywio yn seiliedig ar yr amgylchedd hanesyddol wedi codi balchder yn eu hardal. Yn ôl Treftadaeth yng Nghymru 2018-19², roedd dros 218,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn gwyliau diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru, gan gynnwys Drysau Agored.

Er bod y rheoliadau sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth dreftadaeth yn weinyddol ac yn weithdrefnol eu natur, maent yn cynnwys gofynion ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymgysylltu â'r cyhoedd a deall gwaith arfaethedig ar asedau hanesyddol. Gallai cytundebau partneriaeth dreftadaeth wella mynediad cymunedol at asedau hanesyddol. Er enghraifft, gallent gynnwys gwaith penodol i wella llwybrau troed a chamfeydd ger henebion cofrestredig nad oeddent yn hygyrch o'r blaen. Gallai hyn hyrwyddo mwy o ymdeimlad o ymgysylltiad a hunaniaeth â'r ardal leol, a chynnig manteision iechyd trwy wella mynediad i weithgareddau awyr agored.

Hefyd, gellid sefydlu cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer atgyweirio pontydd dynodedig mewn ardal awdurdod lleol. Byddai hyn yn helpu i osgoi cau ffyrdd am gyfnodau hir trwy gytuno ar ganiatâd ar gyfer atgyweiriadau rheolaidd, gan leddfu oedi ar gyfer defnyddwyr ffordd.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni fydd y rheoliadau'n cael llawer o effeithiau cadarnhaol ar bobl a chymunedau.

2.2 Hawliau Plant

Yn ôl ein hasesiad cychwynnol, ni fydd y rheoliadau na'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth ehangach yn cael unrhyw effaith ar hawliau plant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y cytundebau yn arwain at rai manteision anuniongyrchol. Drwy wella'r dull hirdymor o reoli asedau hanesyddol, bydd modd i genedlaethau'r dyfodol werthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol.

2.3 Cydraddoldeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yn Atodiad B isod.

¹ Heritage Counts 2014: the value and impact of heritage

² Treftadaeth yng Nghymru 2018-19: Effeithiau a chyflawniadau'r sector treftadaeth

2.4 Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

Nid yw'r cynigion yn rheoliadau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn targedu ardaloedd gwledig yn benodol, a bydd manteision cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn debyg ar gyfer asedau hanesyddol mewn cymunedau gwledig a threfol. Fodd bynnag, mae 70 y cant o'r holl henebion cofrestredig a bron i 20 y cant o adeiladau rhestredig wedi'u lleoli ar dir amaethyddol a daliadau fferm. Cydnabyddir fwyfwy bod gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yn rhan annatod o'r ymgais i greu diwydiant ffermio mwy cynaliadwy. Bydd modd gwella'r broses o reoli asedau hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy trwy ddatblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth ochr yn ochr ag unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol neu gynllun lles y cyhoedd newydd sy'n ystyried rheoli asedau hanesyddol yn rhagweithiol ac yn yr hirdymor.

2.5 Iechyd

Yn ôl ein hasesiad cychwynnol, ni fydd rheoliadau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar iechyd.

Fodd bynnag, gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth helpu i reoli adeiladau hanesyddol unigol lle mae gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu. Ceir dros gant o adeiladau rhestredig sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd, megis canolfannau iechyd, ysbytai, hosbisau a chartrefi nyrsio. Gallai cytundebau partneriaeth dreftadaeth ddarparu dulliau newydd, mwy effeithiol o reoli'r asedau hanesyddol hyn, gan greu adeiladau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hygyrch ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae cyrff cyhoeddus yn debygol o gael eu targedu i ddatblygu cytundebau partneriaeth dreftadaeth o'r fath.

Yn ogystal, mae safleoedd hanesyddol sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n hawdd i'w cyrraedd yn cyfrannu at lesiant pobl. Dangoswyd hynny mewn gwaith ymchwil gan English Heritage yn 2014³. Dangosodd y gwaith ymchwil hwn fod gan y profiad o ymweld â safleoedd treftadaeth, megis trefi hanesyddol, adeiladau, safleoedd diwydiannol ac archeolegol, berthynas gadarnhaol sylweddol â boddhad bywyd. Hefyd, mae arolygon wedi dangos bod ymweld â safle treftadaeth yn gallu darparu amgylchedd i ganolbwyntio ar deithiau cerdded a gweithgareddau eraill, gan wella llesiant corfforol ac iechyd meddwl o bosibl. Drwy gefnogi'r gwaith cyson a hirdymor o reoli elfennau o'r amgylchedd hanesyddol, gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth feithrin llesiant pobl yn anuniongyrchol.

2.6 Preifatrwydd

Fel rhan o'r cynnig, a fydd angen prosesu gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i adnabod unigolion?

Bydd

³ Heritage Counts 2014: The value and impact of heritage

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R IAITH GYMRAEG?

3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig yn ogystal â threftadaeth anniriaethol fel traddodiadau; mae'r celfyddydau yn cwmpasu'r sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elït a chwaraeon cymunedol yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017–18, dywedodd 75 y cant o bobl eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd 63 y cant ohonynt wedi ymweld â safle treftadaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 45 y cant wedi ymweld â chastell neu adfail ac roedd 40 y cant wedi ymweld ag adeilad hanesyddol a oedd ar agor i'r cyhoedd. Mae hyn yn dangos bod dull hirdymor o reoli asedau hanesyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael mynediad i'r safleoedd hyn a mwynhau'r digwyddiadau a gynhelir ynddynt. Mewn rhai achosion, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu i reoli'r asedau hyn yn gynaliadwy.

Er bod rheoliadau cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn weinyddol ac yn weithdrefnol eu natur, bydd cyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant a threftadaeth yn uniongyrchol. Byddant yn cyflwyno cynlluniau hirdymor ar gyfer rheoli asedau hanesyddol yn gynaliadwy, a fydd yn cynnwys y caniatâd sydd ei angen ar gyfer rhaglenni gwaith atgyweirio a chynnal a chadw rheolaidd. Bydd y cynlluniau hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth y cytunir arni o arwyddocâd yr asedau a'u hanghenion cadwraeth, ac felly byddant yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nod ar gyfer diwylliant.

3.2 Y Gymraeg

Mae'r fframwaith ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r rheoliadau'n cynnwys y gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori yn unig. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni gofynion y rheoliadau'n ddwyieithog yn unol â safonau'r Gymraeg. Bydd perchnogion yn gallu datblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd canllawiau ar gael i berchnogion ac awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Hefyd, yn ystod yr ymgynghoriad byddwn yn gofyn cwestiwn penodol am effaith y rheoliadau ar y Gymraeg. Nid ydym yn rhagweld y bydd effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr iaith, ond byddai gennym ddiddordeb mewn derbyn syniadau am ddulliau posibl o hyrwyddo'r iaith drwy'r rheoliadau.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae Treftadaeth yng Nghymru 2018-19⁴ yn nodi bod sector yr amgylchedd hanesyddol, twristiaeth treftadaeth a gwaith adeiladu ym maes treftadaeth yn cynnal 40,000 o swyddi, sef bron i dri y cant o gyfanswm cyflogaeth Cymru. Yn ogystal, mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn amcangyfrif bod y 112,000 o weithwyr adeiladu a gyflogir yng Nghymru yn treulio 43 y cant o'u hamser yn gwneud gwaith i warchod, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol. Gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth ddarparu dull hirdymor, cyfannol o warchod, atgyweirio a chynnal a chadw asedau hanesyddol, gan roi mwy o sicrwydd a chysondeb i gontractwyr a pherchnogion yn ymwneud â rhaglenni gwaith arfaethedig.

Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn symleiddio'r broses o gael caniatâd a'r gwaith gweinyddol cysylltiedig trwy sicrhau bod modd rhoi caniatâd ar gyfer gwaith penodol yn ystod oes y cytundeb. Mae hyn yn dileu'r angen am geisiadau mynych am ganiatâd ar gyfer gwaith tebyg.

Bydd awdurdodau sy'n rhoi caniatâd yn manteisio ar arbedion amser ac adnoddau dros yr hirdymor wrth i nifer y ceisiadau bach neu ailadroddus leihau.

Bydd gan berchnogion ddigon o hyblygrwydd i gynllunio gwaith ar eu hasedau hanesyddol dros gyfnod o amser, gan wybod bod caniatâd eisoes ar waith. Drwy hyrwyddo dulliau rheoli cadarnhaol, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu perchnogion i osgoi costau atgyweiriadau diangen a ffioedd ymgeisio mynych, gan eu galluogi i fanteisio ar werth economaidd eu hasedau hanesyddol.

Yr Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd?

Nac ydym

Ydych chi'n creu, yn dileu neu'n diwygio trosedd?

Nac ydym

A allai'ch cynnig arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. drwy fwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad gan gorff cyhoeddus?

Na allai

⁴ Treftadaeth yng Nghymru 2018-19: Effeithiau a chyflawniadau'r sector treftadaeth

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

Mae diogelu asedau hanesyddol yn ystyriaeth bwysig wrth ymateb i'r peryglon sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Ar sail dehongliad bras, mae asedau hanesyddol yn cynnwys nid yn unig henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, ond henebion heb eu dynodi a safleoedd archeolegol ac adeiladau. Hefyd, maent yn cynnwys parciau a gerddi hanesyddol, llongddrylliadau a threfluniau a thirweddau. Cyhoeddodd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol Gynllun Addasu'r Sector ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd⁵ yn 2020, sy'n nodi'n fanwl sut y bydd y broses o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei gweithredu er mwyn diogelu asedau hanesyddol yng Nghymru.

Mae rheoli asedau hanesyddol yn wael yn gallu cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol, er enghraifft, drwy amharu ar ystlumod sy'n clwydo neu gyfrannu at lifogydd drwy ddraeniad gwael. Oherwydd hyd cytundebau partneriaeth dreftadaeth, byddant yn darparu cyfleoedd i reoli a gwella'r amgylchedd naturiol, yn ogystal â'r amgylchedd hanesyddol, yn yr hirdymor. Er enghraifft, yng nghyd-destun cytundebau partneriaeth dreftadaeth, bydd perchnogion yn gallu ystyried y newid yn yr hinsawdd ac ystyried camau gweithredu priodol yn erbyn materion fel llifogydd.

Mae llesiant amgylcheddol yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw waith ar ased hanesyddol. Gan fod cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn hwyluso'r broses o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yn yr hirdymor, byddant yn ystyried yr amgylchedd. Er y bydd pob cytundeb partneriaeth dreftadaeth unigol yn wahanol, rhagwelir y bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig yn cyd-fynd yn agos ag unrhyw gynllun amaeth-amgylcheddol newydd/cynllun lles y cyhoedd a fydd o fudd i'r amgylchedd yn gyffredinol, gan gynnwys bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a pherygl llifogydd.

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

Er bod y rheoliadau ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn weinyddol ac yn weithdrefnol o ran natur, gallant helpu i gyflawni'r tair blaenoriaeth genedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur

Gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth gynnwys mathau o waith gwahanol, ond, gan fod cytundebau'n debygol o bara 10 i 15 mlynedd, bydd yn hawdd annog perchnogion i

⁵ <https://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2020-02/Adaptation%20Plan%20-%20FINAL%20WEB%20-%20Welsh%20%281%29.pdf>

ystyried ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a lliniaru perygl llifogydd mewn cytundebau. Bydd Cynllun Addasu'r Sector Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 a chytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu i gyflawni'r camau gweithredu sy'n cael eu nodi yn y cynllun hwn. Er enghraifft, dylai cytundebau partneriaeth dreftadaeth gydnabod bod angen atgyweirio adeiladau hanesyddol mewn ffordd sy'n gweddu i'r deunyddiau gwreiddiol a ddefnyddiwyd wrth eu hadeiladu; felly, dylai coed o goedwigoedd cynaliadwy gael eu defnyddio wrth adnewyddu ffenestri. Mae ailddefnyddio cymaint o ddeunydd gwreiddiol â phosibl yn diogelu arwyddocâd yr adeilad ac adnoddau naturiol gwerthfawr.

Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon

Gellir defnyddio cytundebau partneriaeth dreftadaeth i annog perchnogion asedau hanesyddol i ystyried gosod systemau ynni adnewyddadwy cyn belled â bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelu adeiladwaith a chymeriad yr adeilad ynghyd â'r dirwedd neu'r lleoliad cyfagos. Bydd y broses o ddatblygu'r cytundebau yn helpu perchnogion i ystyried yn ofalus ddyluniad a lleoliad systemau microgynhyrchu lle bo hynny'n berthnasol. Nid oes angen eithrio'r amgylchedd hanesyddol o'r broses o sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy y gellir ei gyflawni drwy ddulliau rheoli gofalus. Hefyd, gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth annog perchnogion i arbed elfennau anadferadwy o dreftadaeth bensaernïol. Mae cynnal a chadw adeiladau hanesyddol presennol yn fanteisiol oherwydd bydd costau ynni, carbon ac ariannol sylweddol yn deillio o'u disodli.

Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd

Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gytundebau cydweithredol rhwng awdurdodau cynllunio lleol, Gweinidogion Cymru, perchnogion a meddianwyr a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn yr asedau hanesyddol perthnasol. Un o amcanion cytundebau partneriaeth dreftadaeth yw edrych yn holistaidd ar y broses o reoli asedau hanesyddol gwahanol mewn ardal, a allai wneud cyfraniad cadarnhaol at ei chymeriad a'i nodweddion unigryw lleol. Mae hyn yn golygu y gallant sicrhau gwelliannau i ardal ar lefel leol a ddylai fod yn fanteisiol i bobl leol.

5.2 Bioamrywiaeth

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i chi gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, sydd ar gael yn atodiad F isod.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy gamau datgarboneiddio (5.3a) ac ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein cadernid (5.3b).

5.3a Datgarboneiddio

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?

Ni fydd unrhyw effaith cadarnhaol neu negyddol uniongyrchol ar allyriadau. Fodd bynnag, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn annog perchnogion i sicrhau dyfodol

cynaliadwy ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ledled Cymru. Bydd hyn nid yn unig yn arbed elfennau anadferadwy o'n treftadaeth bensaernïol, ond yn sicrhau nad yw'r ynni a ymgorfforir yn eu hadeileddau yn cael ei wastraffu trwy eu dinistrio a'u disodli.

5.3b Ymaddasu

Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Ni fydd y cynnig i gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cael llawer o effaith uniongyrchol ar y newid yn yr hinsawdd.

Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gyfle i ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwarchod a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol presennol yn fanteisiol oherwydd y bydd y broses o'u disodli yn creu costau ynni, carbon ac ariannol sylweddol. Gellid ystyried mesurau arbed ynni gyda chytundebau partneriaeth dreftadaeth a allai gyfrannu at leihau'r defnydd o ynni, gan sicrhau bod cymeriad yr adeilad hanesyddol yn cael ei gynnal. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gyfle i ystyried y broses o reoli asedau hanesyddol yn yr hirdymor, a bydd newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth bwysig.

5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth gan na fyddant yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac nad ydynt yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau datblygu sydd angen caniatâd yn y dyfodol.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan na fydd y cynnig yn effeithio ar unrhyw safleoedd gwarchodedig.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gan fod y canllawiau y tu allan i gwmpas rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Asesiad Effaith	Oes / Nac oes	Os oes, dylech wneud y canlynol
Hawliau Plant	Nac oes	Cwblhau'r Asesiad Effaith Llawn isod
Cydraddoldeb	Oes*	Cwblhau'r Asesiad Effaith Llawn isod
Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Iechyd	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Preifatrwydd	Oes	Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd isod
Y Gymraeg	Oes*	Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg isod
Economaidd/Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Cyfiawnder	Nac oes	Cwblhau'r ffurflen Nodi Effaith y System Gyfiawnder ar y fewnwyd
Bioamrywiaeth	Oes*	Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod
Newid yn yr Hinsawdd	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Nac oes	Cyfeirio at y Canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig

* Gorfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol.

ADRAN 7. CASGLIAD

Cyflwynwyd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Wrth ddatblygu'r Ddeddf hon, ymgysylltodd Cadw ag amrywiaeth o randdeiliaid yr amgylchedd hanesyddol sy'n debygol o fod â diddordeb yn y broses o gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth, neu sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt.

Wrth baratoi ar gyfer ein hymgyngoriad ar reoliadau'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth, rydym wedi ehangu ein rhestr ddosbarthu er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid rheolaidd, y rhai sydd â diddordeb ehangach yn yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hysbysu am yr ymgynghoriad. Hefyd, os yw grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn teimlo nad ydym wedi mynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol, byddant yn cael cyfle i'w trafod gyda ni.

Mae rheoliadau'r cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn weithdrefnol ac yn weinyddol o ran natur ac, o'r herwydd, ni fyddant yn cael llawer o effaith uniongyrchol ar yr asesiadau sy'n cael eu cwblhau.

Er hynny, bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gwella'r broses o reoli asedau hanesyddol dynodedig Cymru yn gynaliadwy drwy greu cynlluniau rheoli hirdymor y cytunwyd arnynt gan awdurdodau sy'n rhoi caniatâd, perchnogion a phartïon eraill â diddordeb sy'n gweithio mewn partneriaeth wirfoddol. Bydd y cytundebau'n cefnogi rhaglenni gwaith integredig a chydlynol dros gyfnodau o flynyddoedd. Bydd y dull cyfannol, hirdymor o reoli asedau hanesyddol nid yn unig yn fanteisiol i'r asedau, ond bydd yn sicrhau arbedion ar gyfer y partïon perthnasol hefyd.

Mae'r rheoliadau ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cynnwys gofyniad ar gyfer ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â'r cyhoedd a dealltwriaeth leol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar asedau hanesyddol yn yr ardal. Yn ôl gwaith ymchwil, mae pobl yn teimlo bod buddsoddi yn yr amgylchedd hanesyddol yn golygu bod eu hardal yn lle gwell i fyw, gan wella llesiant cymdeithasol.

Mae natur hirdymor y cytundebau yn rhoi cyfle i berchnogion ystyried newid yn yr hinsawdd ac ystyried camau gweithredu priodol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol megis llifogydd. Hefyd, bydd y cytundebau yn cynnig cyfleoedd i ystyried y defnydd wedi'i reoli'n ofalus o systemau ynni adnewyddadwy sy'n gallu cynnig arbedion ynni, carbon ac ariannol sylweddol.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi amlygu pwysigrwydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Mae rheoli ein hasedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i werthfawrogi'r safleoedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn helpu unigolion a sefydliadau i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer gwarchod yr asedau hanesyddol hynny yn yr hirdymor. Bydd y cytundebau'n hyrwyddo ac

yn diogelu diwylliant a threftadaeth yn uniongyrchol gan eu bod yn ymgorffori dull integredig a chyfannol o reoli asedau hanesyddol yn gynaliadwy.

Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'u datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Drwy wella'r broses o reoli a gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, bydd y cytundebau'n cyfrannu at nodau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Yn fwy penodol, byddant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y dangosydd cenedlaethol — 'Y ganran o asedau'r amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog a gwell' — a gyflwynwyd i fesur cynnydd tuag at y nodau llesiant.

Bydd yr ymgynghoriad yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau negyddol nad ydynt wedi'u hystyried, neu nodi cyfleoedd eraill y gellid manteisio arnynt.

Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth unigol yn cael eu monitro a'u hadolygu gan fod gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Bydd Cadw yn derbyn copi o bob cytundeb partneriaeth dreftadaeth, ac mewn llawer o achosion bydd Cadw yn un o bartneriaid y cytundeb. O ganlyniad, bydd Cadw mewn sefyllfa i adolygu'r canllawiau a'r rheoliadau a'u diwygio, os yw hynny'n briodol.

Yn ogystal, fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r broses o gyflwyno Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, bydd adolygiadau'n cael eu cynnal i fonitro nifer y cytundebau sydd ar waith ynghyd â'r manteision cadwraeth sydd wedi deillio o'r cytundebau.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

ASESIADAU EFFAITH LLAWN

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n llunio ein hymdeimlad o le ac yn cyfrannu at ein llesiant a'n hansawdd bywyd. Mae asedau hanesyddol fel adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn gwneud cyfraniad pwysig at amgylchedd hanesyddol Cymru, yn aml fel canolbwynt ein cymunedau trefol a gwledig lle maent yn gwneud cyfraniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol fel atyniadau ymwelwyr, busnesau, cyfleusterau cymunedol, addysg a hamdden a chartrefi.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid rheoli adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig mewn ffordd amserol a phriodol er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl, gan sicrhau bod yr hyn sy'n eu gwneud yn arwyddocaol yn hanesyddol yn cael ei ddiogelu.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 gytundebau partneriaeth dreftadaeth. Cwblhawyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Deddf 2016.⁶ Mae'r rheoliadau y mae'n rhaid eu gwneud ar y cyd â chytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gofyn am drefniadau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar gyfer y cytundebau gwirfoddol hyn. Mae'r rheoliadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd a gynigir ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig ychydig yn wahanol i'r rheoliadau a gynigir ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig. Un o'r rhesymau am hyn yw'r ffaith bod y rheoliadau'n deillio o riant-ddeddfau gwahanol. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny, mae'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn debygol y bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng natur y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y ddau fath o gytundeb partneriaeth dreftadaeth. Mae natur y gwaith y gellir ei wneud ar henebion cofrestredig yn cael ei reoleiddio'n fwy llym, sy'n golygu bod y gwaith a gwmpesir gan gytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig yn fwy cyfyngedig o ran cwmpas ac o ddiddordeb llai eang. Yn ogystal, mae henebion cofrestredig i'w gweld mewn lleoliadau gwledig mwy anghysbell, allan o olwg y cyhoedd yn aml. Ar y llaw arall, mae adeiladau rhestredig yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn cymunedau a bod yn hygyrch i'r cyhoedd neu fod â gwerth amwynder uniongyrchol. Yn ogystal, gall y gwaith a ganiateir ar adeiladau rhestredig yng nghyd-destun cytundebau partneriaeth dreftadaeth gael mwy o effaith ar eu harwyddocâd, a bydd y gwaith o ddiddordeb cyffredinol ehangach.

Mae'r rheoliadau henebion cofrestredig yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru, cyn gwneud neu amrywio cytundeb partneriaeth dreftadaeth heneb gofrestredig, yn anfon drafftiau o'r cytundeb at y perchennog a phartïon eraill a allai fod â diddordeb ynddo. Hefyd, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r canlynol drwy ddulliau electronig:

⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/templad-asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb.pdf>

- lleoliad yr heneb/henebion a gwmpesir gan y cytundeb arfaethedig,
- crynodeb o'r cytundeb (bydd copi llawn yn cael ei ddarparu ar gais), a
- manylion am sut i gyflwyno sylwadau yn ymwneud â'r cytundeb.

Ar y llaw arall, mae'r rheoliadau adeiladau rhestredig yn rhagweld mai awdurdodau cynllunio lleol fel yr awdurdodau perthnasol sy'n rhoi caniatâd a fydd yn gyfrifol am y trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd fel arfer. Rhaid iddynt ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac unrhyw feddianwyr adeiladau sy'n wrthrych cytundebau drafft ond nad ydynt yn bartïon iddynt; nid oes angen ymgynghori â pherchnogion gan fod yn rhaid iddynt fod yn bartïon.

Bydd y gwaith cyhoedduswydd yn cynnwys cyhoeddi'r canlynol ar ffurf electronig:

- crynodeb o'r cytundeb drafft neu'r amrywiad drafft,
- gwybodaeth am leoliad yr asedau sy'n cael eu heffeithio,
- cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno sylwadau, a
- gwybodaeth am ble mae'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth drafft ar gael i'w archwilio.

Hefyd, bydd hysbysiadau'n cael eu hanfon at grwpiau ac arbenigwyr â diddordeb er mwyn sicrhau bod ystod eang o bobl yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y dogfennau drafft.

Fodd bynnag, cynigir hefyd fod yn rhaid gosod hysbysiadau ar safleoedd neu wrth ymyl safleoedd er mwyn hysbysu'r bobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwydd. Yn ogystal ag adlewyrchu ymarfer presennol ar gyfer caniatâd adeiladau rhestredig, bydd hyn yn gam gweithredu pragmatig gan fod adeiladau rhestredig yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ar y cyfan.

Mae'r gwaith sy'n cael ei gynnwys mewn cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn debygol o fod yn waith rheolaidd neu ailadroddus, a bydd modd cytuno ar fanyleb gyffredin ar gyfer y gwaith ymlaen llaw. Felly, nid yw'r gwaith yn debygol o fod o ddiddordeb i bobl nad yw'r gwaith yn effeithio arnynt neu'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall cytundebau partneriaeth dreftadaeth arfaethedig fod o ddiddordeb arbennig i bobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, byddai disgwyl i brifysgol sy'n datblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth sy'n cynnwys gwaith i wella trefniadau mynediad ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl.

Ymgynghorir â grwpiau â nodweddion gwarchodedig ynglŷn â'r rheoliadau arfaethedig a'r canllawiau cysylltiedig.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am grwpiau)	Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol uniongyrchol	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd a	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
oedran gwahanol)	ar oedran o ganlyniad i reoliadau neu ganllawiau'r CPD. Efallai y bydd rhywfaint o effaith anuniongyrchol gan ddibynnu ar y gwaith sydd wedi'i gynnwys mewn CPD, ond bydd yn wahanol ar gyfer pob cytundeb a bydd angen ystyried yr effaith wrth ddatblygu pob un.	threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth (CPD), yn weithdrefnol eu natur. Mae'r gofynion yn seiliedig ar weithdrefnau presennol ar gyfer caniatâd henebion cofrestredig a chaniatâd adeiladau rhestredig. Er bod y trefniadau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori arfaethedig yn defnyddio hysbysiadau a dulliau ar-lein, nid ydynt yn dibynnu arnynt yn gyfan gwbl. Mae hyn yn cydnabod y ffaith nad oes gan ganran sylweddol o bobl hŷn fynediad rheolaidd i'r rhyngwrwyd. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018–19, nid yw 22 y cant o bobl 50 oed neu'n hŷn yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn bersonol, tra bod y ffigur yn codi i 51 y cant ymysg pobl 75 oed neu'n hŷn.⁷	ddogfen ganllawiau gysylltiedig. Bydd gwybodaeth yn cael ei gosod ar y safle ar gyfer CPD adeilad rhestredig, a bydd copïau o gytundebau henebion cofrestredig drafft yn cael eu darparu ar gais.
Anabledd (meddyliwch	Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effaith	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn

⁷ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015.pdf>

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
am wahanol fathau o anabledd)	gadarnhaol neu negyddol uniongyrchol ar bobl anabl o ganlyniad i reoliadau'r CPD. Pe bai CPD yn effeithio ar fynediad, mae'r canllawiau'n nodi sut y dylid paratoi datganiad mynediad.	ymgyngori a chyhoeddusrwydd a threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer CPD, yn weithdrefnol eu natur. Os yw caniatâd a ddarperir yn debygol o effeithio ar fynediad, dylai CPD gynnwys datganiad mynediad fel rhan o'r cynllun manwl ar gyfer y CPD. Gallai cynlluniau gwaith unigol gael effaith, a bydd angen i bob CPD ystyried hyn fel rhan o'r cytundeb.	ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar bobl drawsryweddol.	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd a threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer CPD, yn weithdrefnol eu natur. Gallai cynlluniau gwaith unigol gael effaith, a bydd angen i bob CPD ystyried hyn fel rhan o'r cytundeb.	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar fenywod beichiog neu bobl â phlant ifanc.	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoeddusrwydd a threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer CPD, yn weithdrefnol eu natur. Gallai cynlluniau gwaith unigol gael effaith, a bydd angen i bob CPD	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
		ystyried hyn fel rhan o'r cytundeb.	
Hil (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr, Mewnfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar bobl unrhyw grŵp lleiafrifol penodol.	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd a threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer CPD, yn weithdrefnol eu natur. Os yw CPD yn effeithio ar ased sy'n cael ei ddefnyddio, ei feddiannu neu sy'n eiddo i grŵp lleiafrifol, disgwylir y bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer cyfranogiad y grŵp yn yr ymarferiad cyhoedduswydd neu ymgynghori fel rhan o'r CPD.	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Crefydd, credo a dim credo	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar unrhyw grŵp crefydd neu gredo / diffyg credo penodol.	Mae'r rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd a threfniadau gweinyddol eraill ar gyfer CPD, yn weithdrefnol eu natur. Os yw CPD yn effeithio ar ased sy'n cael ei ddefnyddio, ei feddiannu neu sy'n eiddo i unrhyw grŵp crefydd, credo neu ddim credo penodol, disgwylir y bydd y cyhoedduswydd neu'r ymgynghoriad yn briodol i'r buddiannau hynny.	Byddwn yn profi'r rhagdybiaethau hyn yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
Rhyw / Rhywedd	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar unrhyw bobl o ryw neu rywedd penodol.		Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Cyfeiriadedd Rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar unrhyw gategori cyfeiriadedd rhywiol penodol.	Os yw CPD yn effeithio ar ased sy'n cael ei ddefnyddio, ei feddiannu neu sy'n eiddo i grŵp â nodweddion gwarchodedig, disgwylir y bydd proses gyhoeddusrwydd neu ymgynghori briodol yn cael ei gweithredu.	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Priodas a phartneriaeth sifil	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar briodas a phartneriaethau sifil.		Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn annhebygol o gael effaith benodol ar blant a phobl ifanc.	Os yw CPD yn effeithio ar adeilad sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc, cynhelir ymgynghoriad priodol er mwyn llywio'r cytundeb.	Bydd y rhagdybiaethau hyn yn cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r ddogfen ganllawiau gysylltiedig.
Cartrefi incwm isel	Os yw cartref incwm isel yn berchen ar adeilad rhestredig neu heneb gofrestredig ac yn dymuno datblygu CPD, mae'n bosibl y bydd o dan anfantais oherwydd	Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i leihau nifer y gofynion yn y rheoliadau, mae angen deall effaith y gwaith ar arwyddocâd yr ased hanesyddol perthnasol	Rydym wedi darparu cytundebau templed yn y canllawiau. Bydd Cadw yn cynghori perchnogion ac awdurdodau cynllunio lleol ar strwythur a

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut y byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?
	y costau cychwynnol uchel i ddatblygu'r cytundeb. Mae'r cytundebau'n debygol o bara rhwng 10 a 15 mlynedd, ac mae'n bosibl y bydd angen i arbenigwyr ddiffinio cwmpas y gwaith arfaethedig, asesu ei effaith a pharatoi datganiad arwyddocâd.	er mwyn sicrhau na fydd y CPD yn cael effaith andwyol ar yr ased o bwysigrwydd cenedlaethol. Bydd y manylion sydd eu hangen yn dibynnu ar natur y gwaith a'r ased perthnasol, ond gan fod y cytundebau'n debygol o bara hyd at 15 mlynedd, mae'r gwaith cwmpasu yn bwysig er mwyn datblygu cytundeb effeithiol. Dros gyfnod oes 15 mlynedd CPD, mae'n debygol y bydd y perchennog yn arbed arian gan na fydd yn gorfod gwneud cais dro ar ôl tro am ganiatâd ar gyfer gwaith. Fodd bynnag, gall y gwariant cychwynnol fod yn anodd i gartref incwm isel.	chynnwys CPD, ond nid yw'n gallu darparu adnoddau i'w helpu i'w paratoi. Rydym wedi ceisio lleihau unrhyw ofynion eraill ar gyfer perchnogion ac awdurdodau cynllunio lleol er mwyn osgoi cyflwyno beichiau ychwanegol.

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Rhoddwyd ystyriaeth i Hawliau Dynol wrth ddatblygu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r cytundebau'n wirfoddol, felly nid yw'n ofynnol i unrhyw berchennog ased hanesyddol ymrwymo i CPD. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cytundeb, cynhelir ymgynghoriad llawn â'r holl bartïon perthnasol, a byddant yn cael cyfle i herio ac anghytuno â chynnwys y cytundeb. Ni fydd unrhyw reidrwydd i'r partïon gwahanol ymrwymo i gytundeb os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

B. ASESIAD O'R EFFAITH AR BREIFATRWYDD

Anfonwch eich asesiad i'r Uned Hawl i Wybodaeth (YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru) gan anfon copi at eich Perchennog Asedau Gwybodaeth.

Enw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth Gwilym Hughes
Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (rhif unigryw'r asesiad o'r effaith ar breifatrwydd hwn fel DivDate neu rif ishare y ddogfen) A28397190
Disgrifiwch eich cynnig: (i) <i>Os yw'n newid i system/prosiect/proses/polisi cyfredol, amlinellwch y trefniadau presennol a sut y mae data personol yn cael ei brosesu ar hyn o bryd.</i> (ii) <i>Nodwch sut y bydd y system/prosiect/proses/polisi newydd yn gweithio, gan gynnwys sut y bydd data personol yn cael ei brosesu ac a fydd y data personol yn cael eu rhannu gyda thrydydd partïon.</i> Cytundeb gwirfoddol yw cytundeb partneriaeth dreftadaeth sy'n caniatáu i waith penodedig gael ei wneud dros gyfnod estynedig. Bydd y wybodaeth sy'n ofynnol mewn cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn cynnwys: manylion y partïon i'r cytundeb; lleoliadau a disgrifiadau (gan gynnwys mapiau) o'r asedau hanesyddol perthnasol a manylion y gwaith arfaethedig. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn nodi bod angen cynnal ymgynghoriad a gwneud gwaith cyhoeddusrwydd cyn y gellir bwrw ymlaen â'r cytundeb, a bydd y rheoliadau'n nodi'r trefniadau ar gyfer hyn. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau cynllunio lleol a bydd Cadw yn derbyn copi pan fyddant wedi'u mabwysiadu. Bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am arwain a gweinyddu cytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig. Mae gwybodaeth am leoliadau a disgrifiadau henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig eisoes ar gael i'r cyhoedd ar Cof Cymru, cronfa ddata ar-lein Cadw o asedau hanesyddol

dynodedig yng Nghymru. Ni fyddwn yn rhannu mwy o wybodaeth na hyn fel rhan o'r gofynion ymgynghori a chyhoedduswydd ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth.

Mae cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn gytundebau gwirfoddol ac maent yn cael eu cychwyn gan berchnogion asedau hanesyddol. Gall y cytundebau gynnwys rhywfaint o wybodaeth bersonol megis enw neu gyfeiriad, ond ni fydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd (h.y. yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyhoedduswydd) heb gytundeb y perchennog. Mae'r trefniadau ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn seiliedig ar y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer caniatâd adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, ac mae asesiadau preifatrwydd ar waith ar gyfer y ddwy broses.

Mae gwefan Cadw yn nodi sut mae data personol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Gweler yr adrannau yn y ddolen sydd ynghlwm ar Ddynodiadau a Chaniatâd Adeiladau Rhestredig a Dynodiadau a Chaniatâd Henebion Cofrestredig: <https://cadw.llyw.cymru/polisi-preifatrwydd>

A yw'r holiadur sgrinio neu'r asesiad o'r effaith ar breifatrwydd eisoes wedi'i gwblhau?

- ~~Ydy: nodwch y dyddiad a'r canlyniadau~~
- Nac ydy

Ticiwch yr eitemau data personol a fydd yn cael eu prosesu:

Personol

Enw ✓

Enw cyfeiriad ✓

Cyfeiriad busnes ✓

Cod post ✓

Cyfeiriad e-bost ✓

Rhifau ffôn ✓

Dyddiad geni

Rhif trwydded yrru

Rhif pasbort / cerdyn adnabod

Lluniau / delweddau (y gellid eu defnyddio i adnabod unigolyn)

Arall (nodwch)

Sensitif

Tarddiad hiliol / ethnig Barn wleidyddol Credoau crefyddol Aelodaeth o undeb llafur Cyflyrau iechyd corfforol / iechyd meddwl Bywyd rhywiol Cofnodion troseddol a llys (gan gynnwys troseddau honedig) Cofnodion addysgol	Data biometrig e.e. DNA, olion bysedd Gwybodaeth ariannol bersonol (e.e. manylion banc neu gerdyn credyd) Enw'ch mam cyn priodi Rhif Yswiriant Gwladol (neu rif cyfatebol) Cofnodion treth, budd-daliadau neu bensiynau Cofnodion iechyd neu wasanaethau cymdeithasol e.e. Tai neu Amddiffyn Plant Cofnodion cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth a gwaith gwirfoddol) Arall (nodwch)
Os yw data personol sensitif yn cael ei brosesu, a yw'r data hwn yn cael ei gasglu'n orfodol (h.y. nid oes hawl gan wrthrych y data i beidio â'i ddarparu)? ☐ Ydy ☐ Nac ydy	
Ar gyfer y data personol sy'n cael ei brosesu, nodwch y canlynol:	
Pwy yw'r rheolydd data? Awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru	Manylion: Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth adeiladau rhestredig yn cael eu gweinyddu a'u rheoli gan awdurdodau cynllunio lleol. Bydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth henebion cofrestredig yn cael eu gweinyddu a'u rheoli gan Cadw ar ran Gweinidogion Cymru.
Unrhyw brosesyddion data	Manylion: Amherthnasol
A fydd y data'n cael ei rannu	Manylion: Bydd rhywfaint o ddata'n cael ei rannu yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Mae'n bosibl y bydd

	cyfeiriad y perchennog yn ymddangos yn yr hysbysiad ar y safle ac ar wefannau perthnasol, ond nid heb ei ganiatâd. Gall y perchennog wneud cais am olygu ei enw. Byddem ond yn rhannu data sy'n cynnwys gwybodaeth am leoliad yr ased hanesyddol, nid gwybodaeth am berchnogion unigol.
Mae adrannau 9ZA a 9ZB o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a 26L a 26M o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi'r trefniadau ymgynghori a chyhoedduswydd ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad a'r cyhoedduswydd yn ymarferiad ystyrlon, mae angen datgelu lleoliad unrhyw ased hanesyddol a gwmpesir gan gytundeb.	
A yw'r gwasanaethau cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellwyd uchod yn darparu'r porth angenrheidiol ar gyfer prosesu (gan gynnwys unrhyw rannu arfaethedig)? • Bydd • Nac ydy	
A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu data personol newydd neu sydd wedi newid yn sylweddol ynglŷn â phob unigolyn? • Bydd • Na fydd	
Trin Data A fydd y data personol yn cael eu cydgrynhoi, eu cysylltu neu eu paru â data o ffynonellau eraill? • Bydd • Nac ydy	
A yw'r cynnig yn cynnwys polisiau/arferion casglu, cadw neu rannu data newydd neu sydd wedi newid, at ddefnydd personol? • Ydy • Nac ydy	

Ar hyn o bryd, mae Cof Cymru yn sicrhau bod lleoliadau a disgrifiadau ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob heneb gofrestredig ac adeilad rhestredig yng Nghymru. Felly, ni fydd cytundebau partneriaeth dreftadaeth yn cyflwyno unrhyw bolisiâu casglu, cadw neu rannu newydd.

Technoleg

A fydd y cynnig yn cynnwys cyflwyno technoleg sy'n amharu ar breifatrwydd fel

- Cardiau clyfar
- Tagiau Adnabod Amledd Radio
- Biometreg
- Gwyliadwriaeth weledol (e.e. Teledu Cylch Cyfyng)
- Delwedd ddigidol a recordiad fideo
- Proffilio, cloddio data neu gofnodi traffig electronig
- Technolegau lleoli (e.e. System Leoli Fyd-eang, system leoli ffôn symudol)
- Arall

Amherthnasol

A fydd y cynnig yn galluogi adnabod unigolion a oedd yn ddienw yn flaenorol?

- ~~Bydd~~
- Na fydd

C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):
2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021*? Nac ydy

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Bydd y rheoliadau a'r canllawiau arfaethedig yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Mae'r fframwaith ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r rheoliadau'n cynnwys y gofynion ar gyfer ymgynghori, cyhoeddusrwydd a rhai swyddogaethau gweinyddol. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni gofynion y rheoliadau yn unol â safonau'r Gymraeg. Bydd perchnogion yn gallu datblygu cytundeb partneriaeth dreftadaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd canllawiau ar gael i berchnogion ac awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Hefyd, yn ystod yr ymgynghoriad byddwn yn gofyn cwestiwn penodol am effaith ar y Gymraeg.

D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Ystyried Cwestiynau 1 - 9 ar gyfer POB polisi:

Mae rheoliadau'r cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn weinyddol ac yn weithdrefnol eu natur. Nid ydynt yn gosod polisi newydd ar gyfer diogelu a rheoli asedau hanesyddol yng Nghymru.

Ymwreiddio bioamrywiaeth

- 1. Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

- 2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

- 3. Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth gan annog eraill i weithredu?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro

- 4. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

- 5. A ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

- 6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth

- 7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

8. A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.

9. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chymau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Yng nghyd-destun y rheoliadau hyn nid yw hyn yn berthnasol.